

AI Acknowledgement

Rwy'n cadarnhau nad wyf wedi defnyddio unrhyw offer AI wrth ymchwilio a chreu'r aseiniad hwn.

Rwy'n cadarnhau nad wyf wedi cyflwyno unrhyw ddeunyddiau a gynhyrchwyd gan AI fel fy ngwaith fy hun.

Rwy'n cadarnhau bod gennyf gopïau o'm drafftiau, fy nodiadau, ac adnoddau eraill a ddefnyddiais, y gellir gofyn i mi eu darparu fel tystiolaeth

Targedau o fy Aseiniad Blaenorol

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn
Targed 1	Sicrhau dy fod yn gwneud cysylltiadau rhwng dy ffynonellau wrth ysgrifennu yn feirniadol.	Mae'r traethawd yn dangos cysylltiadau beirniadol rhwng ffynonellau trwy: • Cydblethu damcaniaeth ac ymarfer - Er enghraifft, mae'r dadansoddiad o gamau cynllunio CDY yn dangos sut mae egwyddorion Llywodraeth Cymru a fframweithiau Estyn yn dylanwadu ar arferion ysgolion. • Defnyddio llenyddiaeth i gefnogi dadansoddiad - Pan drafodir bod ansawdd addysgu yn broblem barhaus yng Nghymru, mae hyn yn cael ei ategu gan adroddiadau Estyn (2017) a data PISA, ac yna'n cael ei osod yn y cyd-destun polisi ehangach drwy gyfeirio at Donaldson (2015).

Gwerthusiad Beirniadol o Ddatblygiad Targed Strategol Mewn Cynllun Datblygu

Ysgol: Camau Gweithredu, Effaith ac Adfyfyrdodau ar Sail Tystiolaeth

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynllunio datblygu wedi sefydlu ei hun fel strategaeth allweddol ar gyfer gwella ysgolion (Davies & Ellison, 2003). Yn ôl Llywodraeth Cymru (2014), mae 'Cynllun Datblygu Ysgol' (CDY) yn gallu cael ei ddiffinio fel dogfen strategol sy'n nodi'r camau y bydd ysgol yn eu cymryd i wella deilliannau dysgwyr a chyflawni blaenoriaethau gwella. Yn y traethawd hwn, bwriedir dadansoddi CDY Ysgol A (2024), a gyfeirir ati fel 'Ysgol A' er mwyn diogelu anhysbysrwydd yr ysgol a'i disgyblion, yn unol â chanllawiau BERA (2024). Mae Ysgol A yn ysgol uwchradd gymysg wedi'i lleoli yn Sir Rhondda Cynon Taf, sy'n darparu ar gyfer 699 o ddisgyblion rhwng 11 ac 19 oed (Estyn, 2024a). O'r chwe blaenoriaeth yn CDY'r ysgol, canolbwyntir yma ar y targed dysgu ac addysgu: "gwella effeithiolrwydd addysgu ac asesu er mwyn herio dysgwyr yn gyson i gyflawni eu potensial" (Ysgol A, 2024, t. 1). Yn gyntaf, archwilir pwrpas a champau cynllunio CDY yng nghyd-destun fframweithiau Llywodraeth Cymru. Yna, trafodir llenyddiaeth ar wella effeithiolrwydd addysgu ac asesu cyn dadansoddi'n feirniadol sut mae Ysgol A yn gweithredu'r targed a mesur ei effaith. Wedi hynny, ystyrir fy ymarfer fy hun wrth gefnogi'r ysgol, gan werthuso fy mhenderfyniadau ar sail tystiolaeth. I gloi, cyflwynir y prif gasgliadau ac adfyfyrir ar sut mae'r profiad hwn yn dylanwadu ar fy ymarfer addysgu a'i berthnasedd i'm safonau proffesiynol.

Mae cynllunio CDY yng Nghymru yn dilyn camau clir yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan adlewyrchu cylch gwelliant parhaus: hunanwerthuso, cynllunio, gweithredu ac adolygu (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae'r cam cyntaf, hunanwerthuso, yn gosod sylfeini datblygiad strategol ac asesu meysydd i'w gwella (Llywodraeth Cymru,

2022a). Yn ystod y cam hwn, mae'r ysgol yn asesu ei chryfderau a meysydd i'w gwella, gan gynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion a chasglu adborth gan rhanddeiliaid yr ysgol (Llywodraeth Cymru, 2021). Nid oes disgwyl i ysgolion gyflwyno adroddiad hunanwerthuso cyn arolygiad Estyn, ond mae perygl y gall hyn danseilio pwysigrwydd prosesau hunanwerthuso effeithiol (Estyn, 2020). Mae Estyn hefyd yn nodi bod rhai ysgolion yn cyflogi ymgynghorwyr i ysgrifennu adroddiadau, gan leihau ymdeimlad o berchenogaeth dros y dogfennau hyn (Estyn, 2020).

Yn dilyn hunanwerthuso, mae ysgolion yn nodi blaenoriaethau gwella ac yn eu troi'n flaenoriaethau strategol ar gyfer y tair blynedd nesaf (Llywodraeth Cymru, 2014). Argymhellir cynllunio manwl ar gyfer y flwyddyn gyntaf, gan bennu targedau mesuradwy (Llywodraeth Cymru, 2021). Yn y blynyddoedd canlynol, pennir amcanion strategol hirdymor sy'n gallu cael eu haddasu wrth i anghenion yr ysgol neu amgylchiadau newid (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae'r blaenoriaethau hyn yn amrywio, ond ymhlith y mwyaf cyffredin mae 'gwella llythrennedd a rhifedd', 'lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion', a 'datblygu addysgeg yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru' (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae'r rhain yn cyd-fynd â blaenoriaethau addysg yng Nghymru, fel y nodwyd a'u hamlinellwyd gan Lywodraeth Cymru (2023a).

Yn y cam cynllunio, mae'r ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n nodi camau penodol ar gyfer pob blaenoriaeth. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2014), dylid cynnwys rhanddeiliaid fel y corff llywodraethu, staff a'r gymuned ehangach i sicrhau ymrwymiad cyffredinol i'r targedau gwella. Yn y cam olaf, mae ysgolion yn monitro cynnydd drwy gasglu tystiolaeth megis adborth gan staff, canlyniadau asesiadau a gwerthuso addysgu (Llywodraeth Cymru, 2021). Cynhelir adolygiadau chwarterol a blynyddol gyda'r corff

llywodraethu ac arweinwyr ysgol, ac os oes angen, addasir y cynllun i adlewyrchu newidiadau yn yr ysgol neu bolisi addysgol (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae'r broses hon yn sicrhau bod y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen fyw, sy'n newid a gwella wrth i'r ysgol fynd yn ei blaen.

Yn ôl Estyn (2024b), dylai CDY flaenoriaethu ei waith o fewn tri chategori: 'addysgu a dysgu', 'lles, gofal, cymorth ac arweiniad', ac 'arwain a gwella'. O fewn 'addysgu a dysgu', mae gwella ansawdd addysgu ac asesu yn flaenoriaeth allweddol (Estyn, 2024b). Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ansawdd addysgu yng Nghymru wedi bod yn destun pryder parhaus. Nododd Estyn (2017) taw addysgu oedd yr elfen wannaf o ddarpariaeth addysgol, tra dangosodd PISA fod perfformiad myfyrwyr yng Nghymru yn is na'u cyfoedion yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Llywodraeth Cymru, 2023b). Mae PISA yn cael dylanwad sylweddol ar bolisiau addysgol ledled y byd, gyda nifer o wledydd yn addasu cwricwla mewn ymateb i'w canfyddiadau (Donaldson, 2015). O ganlyniad, ac yn dilyn argymhellion Donaldson (2015), datblygodd Llywodraeth Cymru'r Cwricwlwm i Gymru, sydd yn rhoi pwyslais cryf ar addysgu o ansawdd uchel (Llywodraeth Cymru, 2022b).

Mae ymchwil yn dangos taw ansawdd addysgu yn yr ystafell ddosbarth sydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddysgu disgyblion, o gymharu â holl ffactorau addysgol eraill (Estyn, 2018). Crynhodd William (2016) nifer o astudiaethau hydredol i ddod i'r casgliad fod gwahaniaethau mawr mewn effeithiolrwydd athrawon, gyda'r athrawon gorau yn cael effaith bum gwaith yn well na'r lleiaf effeithiol. Felly, mae gwella ansawdd addysgu yn hanfodol i wella canlyniadau addysgol myfyrwyr. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y safonau proffesiynol newydd i athrawon, sy'n rhoi pwyslais cryf ar addysgeg effeithiol fel sail i wella ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2017).

O fewn safon addysgeg yn y safonau proffesiynol, mae asesu wedi nodi fel un o'r llinynnau allweddol, gan bwysleisio'r rôl hanfodol mae asesu yn ei chwarae wrth wella a datblygu arferion addysgu (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn ôl Llywodraeth Cymru (2022c), mae asesiadau yn arf hanfodol i addysgwyr, gan eu galluogi i addasu dulliau addysgu mewn amser real i gefnogi cynnydd myfyrwyr. Mae Estyn (2022) yn cytuno gyda hyn, gan nodi bod y dulliau asesu mwyaf effeithiol yn cyfuno gwybodaeth ffurfiannol a gasglir yn barhaus yn yr ystafell ddosbarth â thystiolaeth ychwanegol a gesglir ar adegau penodol trwy gydol y flwyddyn academaidd, er mwyn llywio addysgu a chefnogi cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae'r pwyslais cynyddol ar y defnydd a dibenion asesu yn duedd sy'n cael ei gweld mewn llawer o systemau addysgol rhyngwladol, gyda nifer o gwricwla rhyngwladol yn cydnabod rôl feirniadol asesu nid yn unig wrth fesur cynnydd, ond hefyd fel dull gweithredol o wella addysgu a dysgu (Donaldson, 2015). Mae hyn yn adlewyrchu newid byd-eang tuag at asesu fel proses barhaus sy'n llywio penderfyniadau addysgu yn hytrach na dim ond bod yn fesur terfynol o berfformiad disgyblion.

Gan fod gwella ansawdd addysgu ac asesu yn broses barhaus, mae'n hanfodol bod athrawon yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu harbenigedd ym maes asesu trwy ddysgu proffesiynol. Yn Ysgol Gyfun Radyr, mabwysiadwyd model dysgu proffesiynol wedi'i deilwra i anghenion staff a disgyblion, yn seiliedig ar adborth hunanwerthuso ac ymrwymïadau cenedlaethol (Estyn, 2024c). Trwy gyfuniad o hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, darparwyd cyfleoedd i athrawon ddyfnhau eu dealltwriaeth o strategaethau asesu ac addysgu effeithiol. O ganlyniad, gwelwyd gwelliannau sylweddol, yn enwedig ym meysydd holi ac adborth, a gafodd effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Mae hyn yn dangos gwerth Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) wrth wella ymarfer addysgu ac asesu

Mae dull gweithredu Ysgol Gyfun Radyr yn adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar ddysgu proffesiynol ar lefel genedlaethol, gyda Llywodraeth Cymru yn sefydlu Corff Cenedlaethol newydd ar gyfer Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth erbyn Ebrill 2025, gyda'r nod o ddarparu tirwedd dysgu broffesiynol symlach a chydlynol (Llywodraeth Cymru, 2025).

Yn ogystal, mae Asesu ar Gyfer Dysgu (AgD) yn arf pwerus i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau disgyblion. Diffinnir AgD fel y defnydd o wybodaeth o asesu i newid neu addasu'r dull addysgu er mwyn gwella canlyniadau dysgu (Llywodraeth Cymru, 2013). Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod AgD yn gwella profiad ystafell ddosbarth i ddysgwyr ac ymarferwyr, ac yn arwain at wella cynnydd a chyflawniad dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2013). Er nad oes un dull unffurf, un enghraifft effeithiol yw grwpiau ffocws disgyblion, a ddefnyddiwyd yn Ysgol Gynradd Carreghofa i asesu ac adolygu dealltwriaeth disgyblion ddwywaith yr wythnos (Estyn, 2022). Drwy'r sesiynau hyn, roedd y staff yn gallu cael darlun cliriach o ddealltwriaeth y disgyblion a mesur effaith eu haddysgu. Yna, roeddent yn addasu'r addysgu dilynol yn unol â'r canfyddiadau, gan gefnogi dysgwyr sy'n cael trafferth neu ymestyn y rhai sydd angen mwy o her.

Yn rhan nesaf y traethawd hwn, byddaf yn dadansoddi dull gweithredu Ysgol A wrth gyflawni ei darged o "wella effeithiolrwydd addysgu ac asesu er mwyn herio dysgwyr yn gyson i gyflawni eu potensial" (Ysgol A, 2024, t. 1). Mae data yn dangos bod Ysgol A yn perfformio'n is na'r teulu mewn sgôr pwyntiau rhifedd, llythrennedd a gwyddoniaeth, ond mae'r sgôr capio 9, sef cyfartaledd y naw gradd uchaf yn TGAU neu gymwysterau cyfatebol, yn uwch na'r teulu (Llywodraeth Cymru, 2024). Gall hyn awgrymu amrywiad yn y dulliau neu adnoddau addysgu a ddefnyddir ar draws pynciau gwahanol, gan dynnu sylw at werth ystyried ansawdd addysgeg ar lefel ysgol gyfan. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term 'teulu' yn

cyfeirio at grŵp o ysgolion tebyg sy'n cael eu cymharu â'i gilydd ar sail ffactorau fel demograffeg disgyblion, maint yr ysgol, a chyd-destun cymdeithasol-economaidd (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dull hwn i sicrhau cymariaethau tegach rhwng ysgolion sy'n wynebu amgylchiadau tebyg Mae hyn yn cyd-fynd â sylwadau Jeremy Miles, sydd wedi nodi mai'r ffactor pwysicaf mewn cyrhaeddiad yw ansawdd addysgu a dysgu (Senedd Cymru, 2022), gan amlygu'r angen i sicrhau dulliau addysgu cyson ac effeithiol er mwyn gwella cyrhaeddiad disgyblion. Yn ogystal, mae'r hunanarfarnu ysgol a'r arolwg Estyn (2024a) wedi amlygu meysydd i'w gwella, yn benodol yn y defnydd o dechnegau cwestiynu a'r brosesau adborth, gan awgrymu y gellir gwneud newidiadau er mwyn gwella effeithiolrwydd addysgu.

Er mwyn cyflawni'r targed hwn, mae Ysgol A wedi ei rannu'n dri is-amcan, sef 'gwella agweddau tuag at ddysgu', 'gwella arddulliau cwestiynu', a 'gwella ansawdd y wybodaeth adborth' (Ysgol A, 2024). Yn y dadansoddiad yma byddaf yn canolbwyntio ar amcan un yn unig. Mae'r camau gweithredu ar gyfer amcan un yn canolbwyntio ar ddosbarthiadau Cyfnod Allweddol Tri (CA3), lle mae'r ysgol wedi dewis strwythuro'r dosbarthiadau fel llysoedd ar gyfer cofrestru, dosbarthiadau cymysg o ran gallu ar gyfer rhai pynciau fel cerddoriaeth, ac yna setiau mewn pynciau craidd. Mae'r strwythur hwn yn seiliedig ar ddata meincnodi, gan sicrhau canrannau hafal rhywiol. Mae tîmau lles a chynhwysiant hefyd yn cyfrannu, er mwyn darparu cymorth priodol i bob myfyriwr, gyda proffiliau dosbarth ar gael i athrawon i sicrhau gwahaniaethu a herio effeithiol. Crewyd a gwerthuswyd y dosbarthiadau ym mis Gorffennaf 2024, ac yna'u gweithredu ledled yr ysgol ym mis Medi 2024, gyda phob disgybl yn cael eu dosbarthu i'w dosbarth newydd ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd. Er mwyn gwerthuso llwyddiant y targed, mae Ysgol A yn bwriadu casglu adborth gan y disgyblion am yr amgylchedd dysgu, arsylwi gostyngiad yn y

nifer o gamau ymddygiad yn ystod gwersi, a monitro'r cyfraniad at wella presenoldeb yr ysgol a phrydlondeb y dysgwyr.

O ran dulliau gweithredu, mae tystiolaeth ynghylch grwpio myfyrwyr yn ôl gallu yn gymysg (Ireson & Hallam, 2001; Kutscher & Linchevsi, 2000; Prast *et al.*, 2023; Tereshchenko *et al.*, 2018). Canfu Ireson a Hallam (2001) fod dosbarthiadau gallu cymysg yn meithrin agweddau mwy cadarnhaol tuag at yr ysgol, gan awgrymu bod y dull hwn yn cyfrannu at amgylchedd dysgu mwy cefnogol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar yr ymchwil hon gan nad yw'n ystyried lleisiau myfyrwyr, gan ddibynnu'n helaeth ar ddata meintiol i archwilio effeithiau strategaethau grwpio. Serch hynny, mae ymchwil ddiweddarach gan Hallam ac Ireson (2007) yn ategu'r darganfyddiadau hyn, gan nodi bod myfyrwyr mewn dosbarthiadau cymysg yn adrodd lefelau uwch o foddhad. Yn benodol, myfyrwyr â chyrhaeddiad is a disgyblion difreintiedig yw'r rhai mwyaf tebygol o ffafrio'r dull hwn (Hallam & Ireson, 2006).

Er bod yr astudiaethau hyn yn gymharol hen, mae ymchwil fwy diweddar yn dal i gadarnhau'r canfyddiadau (Prast *et al.*, 2023). Yn y cyd-destun hwn, mae dull Ysgol A o sicrhau amrywiaeth yn eu dosbarthiadau yn cyd-fynd â'r dystiolaeth bresennol. Yn arbennig, gan fod Ysgol A wedi'i lleoli mewn ardal ddifreintiedig, mae ymchwil yn awgrymu y gall disgyblion o'r cefndir hwn elwa fwyaf o ddosbarthiadau gallu cymysg (Hallam & Ireson, 2006). O ran mesur effaith, mae cynnwys llais y dysgwyr yn unol â chanllawiau Estyn (2022), sy'n nodi bod adborth disgyblion yn arf gwerthfawr ar gyfer hunanwerthuso ysgolion. Yn y cyd-destun hwn, mae Ysgol A (2024) wedi datblygu cynllun clir gyda chatau gweithredu penodol a meini prawf llwyddiant. Er mwyn cryfhau'r cynllun hwn ymhellach,

byddai pwyslais ychwanegol ar DPP ysgol-gyfan yn gwella ansawdd addysgu ac asesu yn Ysgol A, fel y nodir gan Estyn (2024c) a Llywodraeth Cymru (2025).

Wrth gyfrannu at CDY Ysgol A, rwyf wedi defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth. Mae fy ymchwil yn dangos bod dysgu cydweithredol, sydd â chefnogaeth empirig, yn effeithiol wrth wella agweddau disgyblion tuag at ddysgu (M. Al-Tamimi & Attamimi, 2014; Rabgay, 2018). Yn syml, mae dysgu cydweithredol yn ddull addysgu strwythuredig lle mae disgyblion yn gweithio mewn grwpiau bach er mwyn cyflawni nodau dysgu cyffredin, gan annog cyfrifoldeb unigol a chyd-atebolrwydd (Johnson & Johnson, 2009). Yn ymarferol, rwyf wedi mewnbynnu cyfleoedd dysgu cydweithredol yn fy ngwersi drwy weithgareddau sy'n annog rhyngweithio strwythuredig rhwng disgyblion. Wrth symud ymlaen, byddaf yn penodi rolau penodol i aelodau pob grŵp a chylchredeg y rolau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn profi gwahanol gyfrifoldebau. Yn ogystal, byddaf yn asesu effaith y dull hwn drwy ystyried adborth disgyblion, yn unol â chanllawiau Estyn (2022).

Yn ogystal, rwyf wedi archwilio gwahanol ddulliau cwestiynu er mwyn cefnogi'r amcan o wella arddulliau cwestiynu yn y dosbarth. Mae corff cynyddol o lenyddiaeth yn cydnabod effaith cwestiynu ar ddatblygiad meddwl lefel uwch ymhlith myfyrwyr, a gall hyn hyrwyddo datblygiad meddyliol a chwilfrydedd (e.e. Black & Wiliam, 1998; Buchanan Hill, 2016; Etemadzadeh, Seifi & Far, 2013). Drwy greu amgylchedd addysgol sy'n annog myfyrwyr i herio a thrafod syniadau, mae cwestiynu yn cefnogi integreiddio'r pedwar diben yng nghwricwlwm i Gymru, gan sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu fel aelodau gweithgar o gymdeithas, yn ennill sgiliau beirniadol ac annibynnol, ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu (Llywodraeth Cymru, 2022b). Thema gyffredin yn y llenyddiaeth am gwestiynau effeithiol yw'r syniad o bolisi "dwylo i lawr", lle mae'n ofynnol i bob plentyn gymryd rhan,

hyd yn oed os yw'r ateb yn un negyddol, megis nad yw'r plentyn yn gwybod (Black *et al.*, 2003). Os nad yw plentyn yn gwybod yr ateb, mae'n gallu 'ffonio ffrind' neu 'bownsio' y cwestiwn i gyfoedion, gan hybu sgiliau datrys problemau a chydweithio. Mae hefyd yn bwysig rhoi digon o amser meddwl i fyfyrwyr, er mwyn symud oddi wrth ymatebion arwynebol a hyrwyddo lefel ddyfnach o feddwl (Black *et al.*, 2003). Yn fy ngwersi, rwyf wedi defnyddio'r dull hwn drwy ddewis disgyblion ar hap, gan sicrhau bod pob un yn cymryd rhan ac nad ydw i'n derbyn dim ateb. Yn y dyfodol, bydd hyn yn dod yn bolisi rheolaidd yn fy ystafell ddosbarth, o'r cychwyn cyntaf, er mwyn darparu'r cyfle gorau i fyfyrwyr ymgysylltu â'r steil hwn o gwestiynu ac annog mwy o ymgysylltu â'r dysgu.

I gasglu, mae'n amlwg bod cynllunio datblygu wedi dod yn strategaeth allweddol ar gyfer gwella ysgolion, yn enwedig trwy sefydlu CDY fel corff arweiniol yn y maes hwn. Trwy ddadansoddi llenyddiaeth berthnasol (e.e. Black & Wiliam, 1998; Buchanan Hill, 2016; Etemadzadeh, Seifi & Far, 2013) dangoswyd bod CDY sydd wedi'i strwythuro'n dda ac yn seiliedig ar dystiolaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth wella canlyniadau dysgu. Yn ogystal, mae astudiaeth achos Ysgol A yn ategu'r casgliad hwn drwy ddangos sut y gall dulliau effeithiol o gynllunio datblygu ysgolion arwain at welliant mesuradwy ym mhrofiadau a chyflawniadau myfyrwyr. Yn benodol, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd dulliau fel Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), AgD, a derbyn adborth gan ddisgyblion wrth wella ansawdd addysgu ac asesu. Yn ogystal, mae'r defnydd o strategaethau cwestiynu effeithiol, megis 'polisi dwylo i lawr' a darparu amser meddwl, yn galluogi myfyrwyr i herio eu hunain ac ymgysylltu â dysgu trwy ymdrech beirniadol a chydweithredol (Black *et al.*, 2003). Mae'r ymchwil yn dangos bod y dulliau hyn yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol, cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu, ac ymgorffori egwyddorion y pedwar diben yng Nghwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2022b).

Wrth edrych ymlaen yn fy ngyrfa addysgu, byddaf yn ceisio defnyddio'r dulliau hyn i sicrhau bod fy ymarfer yn parhau i esblygu'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn, adborth adeiladol, ac ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cyd-fynd â Safonau Proffesiynol i Athrawon yng Nghymru, yn benodol safon 'addysgeg', sy'n pwysleisio'r angen i wrando ar ddysgwyr ac asesu yn effeithiol, a safon 'dysgu proffesiynol', sy'n annog DPP a darllen ehangach (Llywodraeth Cymru, 2017). Trwy ymgorffori'r dulliau hyn yn gyson yn fy ymarfer, rwyf nid yn unig yn cefnogi datblygiad dysgwyr ond hefyd yn cryfhau fy natblygiad proffesiynol fel athro effeithiol ac ymroddedig.

Llyfryddiaeth

Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B. & Wiliam, D. (2003) *Assessment for learning:*

Putting It into Practice. Berkshire Open University Press.

Black, P. & Wiliam, D. (1998) *Inside the black box : Raising standards through classroom*

assessment. Cheltenham: Hawker Brownlow Education.

British Educational Research Association [BERA] (2024) *Ethical Guidelines for Educational*

Research. 5th ed. London: British Educational Research Association. Ar gael yn:

<http://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2024>.

Buchanan Hill, J. (2016) 'Questioning Techniques: a Study of Instructional Practice',

Peabody Journal of Education, 91(5), tt. 660–671. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1080/0161956x.2016.1227190>.

Davies, B. & Ellison, L. (2003) *The New Strategic Direction and Development of the School:*

Key Frameworks for School Improvement Planning. Routledge.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol->

[llwyddiannus.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf) (Cyrchwyd: 31 Ionawr 2025).

Estyn (2017) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant*

yng Nghymru 2015-2016. Caerdydd: Estyn.

Estyn (2018) *Gwella Addysgu*. Ar gael yn: [https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-](https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Improving%2520teaching%2520-%2520cy.pdf)

[07/Improving%2520teaching%2520-%2520cy.pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Improving%2520teaching%2520-%2520cy.pdf) (Cyrchwyd: 31 Ionawr 2025).

Estyn (2020) *Dull newydd ar gyfer adroddiadau hunanwerthuso – ond beth mae hyn yn ei*

olygu i ysgolion? Estyn, 28 Gorffennaf. Ar gael yn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/blog/dull-newydd-ar-gyfer-adroddiadau->

[hunanwerthuso-ond-beth-mae-hyn-yn-ei-olygu-i-ysgolion/](https://www.estyn.llyw.cymru/blog/dull-newydd-ar-gyfer-adroddiadau-hunanwerthuso-ond-beth-mae-hyn-yn-ei-olygu-i-ysgolion/) (Cyrchwyd: 3 Chwefror

2025).

Estyn (2022) *Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu*. Caerdydd:

Estyn. Ar gael yn: <https://www.estyn.gov.wales/system/files/2022->

10/Ymagweddau%20effeithol%20at%20asesu%20syn%20gwella%20addysgu%20a%20dysgu.pdf (Cyrchwyd: 1 Chwefror 2025).

Estyn (2024a) *Adroddiad arolygiad* [REDACTED]. Caerdydd: Estyn. Ar gael

yn: [https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/\[REDACTED\]-](https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/[REDACTED]-)

cy/#inspection-reports (Cyrchwyd: 1 Chwefror 2025).

Estyn (2024b) *Beth Rydym yn ei Arolygu (2024 – 2030): Ysgolion a Gynhelir ac Unedau*

Cyfeirio Disgyblion. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2024->

07/Beth%20rydym%20yn%20ei%20arolygu%20-

%20Ysgolion%20a%20gynhelir%20ac%20UCDau.pdf (Cyrchwyd 30 Ionawr 2025).

Estyn (2024c) *Effaith dysgu proffesiynol ar wella ansawdd yr addysgu yn Ysgol Gyfun Radur*.

Caerdydd: Estyn. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/effaith->

dysgu-proffesiynol-ar-wella-ansawdd-yr-addysgu-yn-ysgol-gyfun-radur/ (Cyrchwyd:

1 Chwefror 2025).

Etemadzadeh, A., Seifi, S. & Far, H.R. (2013) 'The Role of Questioning Technique in

Developing Thinking Skills: The Ongoing Effect on Writing Skill', *Procedia - Social*

and Behavioral Sciences, 70, tt.1024–1031. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1016/j.sbspro.2013.01.154> (Cyrchwyd: 1 Chwefror 2025).

Hallam, S. & Ireson, J. (2006) 'Secondary school pupils' preferences for different types of

structured grouping practices', *British Educational Research Journal*, 32(4), tt.583–

599. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/01411920600775274> (Cyrchwyd: 1 Chwefror

2025).

- Hallam, S. & Ireson, J. (2007) 'Secondary school pupils' satisfaction with their ability grouping placements', *British Educational Research Journal*, 33(1), tt. 27–45. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/01411920601104342> (Cyrchwyd: 1 Chwefror 2025).
- Ireson, J. & Hallam, S. (2001) *Ability Grouping in Education*. Llundain: Paul Chapman Publishing.
- Johnson, D.W. & Johnson, R.T. (2009) 'An educational psychology success story: Social interdependence theory and cooperative learning', *Educational Researcher*, 38(5), tt. 365–379. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3102/0013189X09339057> (Cyrchwyd: 2 Chwefror 2025).
- Kutscher, B. & Linchevski, L., (2000) 'Moving between mixed-ability and same-ability settings: Impact on learners', *Psychology of Mathematics Education (PME) Conference*. Hiroshima: The Hebrew University of Jerusalem, tt. 3-199. Ar gael yn: <https://academic.sun.ac.za/mathed/MALATI/Files/PME20002.pdf>
- Llywodraeth Cymru (2013) *Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/199a18b5-672f-449b-ab04-dc0a1f58793c/asesu-ar-gyfer-dysgu-ar-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf> (Cyrchwyd: 1 Chwefror 2025).
- Llywodraeth Cymru (2014) *Cynlluniau datblygu ysgolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf> (Cyrchwyd: 29 Ionawr 2025).
- Llywodraeth Cymru (2017) *Safonau Proffesiynol ar Gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/ac783486-0851-4ec6-9e73-2e2b99515cf5/safonau->

proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf (Cyrchwyd: 31 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2018) *Crynodeb o ymatebion, Atodiad F: Geirfa Termau*. Caerdydd:

Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/171124-annex-f-cy.pdf> (Cyrchwyd: 7 Chwefror 2025).

Llywodraeth Cymru (2021) *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, Hwb*. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:

<https://hwb.gov.wales/gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/canllawiau-gwella-ysgolion-fframwaith-ar-gyfer-gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/#page-wrapper> (Cyrchwyd: 3 Chwefror 2025).

Llywodraeth Cymru (2022a) *Canllawiau Gwella Ysgolion: Asesiad o'r Effaith*. Caerdydd:

Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/7/3/1657103367/canllawiau-gwella-ysgolion-asesiad-or-effaith.pdf> (Cyrchwyd: 29 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2022b) *Cwricwlwm i Gymru, Hwb*. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/> (Cyrchwyd: 29 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2022c) *Fframwaith Newydd ar Gyfer Gwella Ysgolion i Ganolbwyntio*

ar Gynnydd Dysgwyr, Hwb. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/fframwaith-newydd-ar-gyfer-gwella-ysgolion-i-ganolbwyntio-ar-gynnydd-dysgwyr> (Cyrchwyd: 31 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2023a) *Cenhadaeth ein Cenedl: Safonau a Dyheadau Uchel i Bawb*.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf->

versions/2023/3/2/1679399733/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-dyheadau-uchel-i-bawb.pdf (Cyrchwyd: 30 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2023b) *PISA 2022: Adroddiad Cenedlaethol Cymru*. Caerdydd:

Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-12/pisa-2022-adroddiad-cenedlaethol-cymru-605.pdf> (Cyrchwyd: 31 Ionawr 2025).

Llywodraeth Cymru (2024) [REDACTED], *Fy Ysgol Leol*. Llywodraeth Cymru.

Ar gael yn: <https://mylocalschool.gov.wales/School/6744097?lang=cy> (Cyrchwyd: 1 Chwefrof 2025).

Llywodraeth Cymru (2025) *Datganiad Ysgrifenedig: Y Rhaglen Bartneriaeth Gwella*

Ysgolion – Diweddariad ar y Cynnydd. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-rhaglen-bartneriaeth-gwella-ysgolion-diweddariad-ar-y-cynnydd> (Cyrchwyd: 1 Chwefror 2025).

M. Al-Tamimi, N.O. & Attamimi, R.A. (2014) 'Effectiveness of Cooperative Learning in Enhancing Speaking Skills and Attitudes Towards Learning English', *International Journal of Linguistics*, 6(4), t. 27. Ar gael yn: <https://doi.org/10.5296/ijl.v6i4.6114>.

Prast, E., Stroet, K., Koornneef, A. & Wilderjans, T. (2023) 'What do students think about differentiation and within-class achievement grouping?', *Frontline Learning Research*, 11(1), tt. 57–93. Ar gael yn: <https://doi.org/10.14786/flr.v11i1.1079>.

Rabgay, T. (2018) 'The Effect of Using Cooperative Learning Method on Tenth Grade Students' Learning Achievement and Attitude Towards Biology', *International Journal of Instruction*, 11(2), tt. 265–280. Ar gael yn: <https://doi.org/10.12973/iji.2018.11218a>.

Senedd Cymru (2022) *Y Cyfarfod Llawn*. 22 Mawrth 2022. Ar gael yn:

<https://business.senedd.wales/ieListDocuments.aspx?CIId=700&MIId=12659&Ver=4>

(Cyrchwyd: 7 Chwefror 2025)

Tereshchenko, A., Francis, B., Archer, L., Hodgen, J., Mazenod, A., Taylor, B., Pepper, D. &

Travers, M.-C. (2018) 'Learners' attitudes to mixed-attainment grouping: Examining the views of students of high, middle and low attainment', *Research Papers in*

Education, 34(4), tt. 425–444. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1080/02671522.2018.1452962>.

Wiliam, D. (2016) *Leadership for Teacher Learning : Creating a Culture Where all Teachers*

Improve So That All Students Succeed. West Palm Beach: Learning Sciences

International.

██████████ (2024) *Cynllun Datblygu Ysgol*. ██████████

██████████. Heb ei gyhoeddi.